

Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol Ebrill 2019

Mae Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 32

Llwyddo: 10

Bu bron un rhan o dair o'r ymgeiswyr yn llwyddiannus yn y rownd hon, a gwelwyd sawl un arall yn agos at y lan, gydag ambell un yn llwyddo i gyrraedd y safon mewn un o'r ddau ddarn, ac eraill yn agos at llwyddo, ond bod ambell wall rhy ddifrifol yn amharu ar waith a fuasai fel arall yn ddigon derbyniol. Er bod safon y ceisiadau ar y cyfan yn weddol dda, felly, cafwyd llond dwrn o ymgeiswyr oedd yn methu â chyrraedd y safon angenrheidiol o ran unrhyw un o'r pedair elfen (ystyr, cywair, cystrawen a chywirdeb). Er bod arholiad Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn gallu bod yn ffon fesur i weld a fyddai gyrfa fel cyfieithydd yn opsiwn addas, mae'n drueni gweld rhai'n methu'n gyfan gwbl fel hyn, a byddwn yn annog pawb sy'n ystyried sefyll yr arholiad, hyd yn oed ar y lefel sylfaenol, i gael adborth ar safon eu gwaith yn gyntaf. Gall e-weithdai cyfieithu'r Gymdeithas fod yn ddefnyddiol iawn yn hyn o beth.

Roedd y ddau ddarn arholiad yn ymdrin â materion ddylasai fod yn ddigon cyfarwydd i unrhyw un sy'n darllen yn weddol helaeth, gan mai'r nod bob amser yw gosod darnau a allai gyrraedd desg y cyfieithydd fel rhan o'i waith pob dydd. Cafwyd enghreifftiau o gyfieithu effeithiol, llwyddiannus yng ngwaith nifer o'r ymgeiswyr, e.e.:

...but a charity suggests the true figure could be even higher.

...ond mae elusen yn awgrymu y gallai'r gwir ffigur fod hyd yn oed yn uwch.

It is a medical condition which results in extreme tiredness, as well as problems with memory and concentration.

Mae'n gyflwr meddygol sy'n arwain at flinder eithafol, ynghyd â phroblemau cofio a chanolbwytio.

These pupils were investigated because they had been absent for at least a day a week during a six-week term.

Ymchwiliwyd i'r disgyblion hyn oherwydd eu bod wedi colli o leiaf un diwrnod o'r ysgol yr wythnos yn ystod tymor chwe wythnos o hyd.

According to researchers, as many as one in 100 secondary school pupils could be missing classes because of chronic fatigue syndrome...

Yn ôl ymchwilyr, gallai cynifer ag un ymhob 100 o ddisgyblion ysgol uwchradd fod yn colli gwersi o ganlyniad i syndrom lludded cronig...

Caution is needed when drawing conclusions from only three schools, but the figure of 1% could well be too low...

Rhaid bod yn ofalus wrth dynnu casgliadau o dair ysgol yn unig, ond mae'n ddigon posibl y gallai'r ffigur 1% fod yn rhy isel...

Human beings are remarkably adaptable.

Mae gan yr hil ddynol ddawn hynod i addasu.

Although it cannot be said with certainty that these events were a direct consequence of climate change...

Er nad oes modd dweud yn bendant mai newid yn yr hinsawdd a achosodd y digwyddiadau hyn yn uniongyrchol...

Weather patterns are shifting, extreme weather is becoming more commonplace and temperatures in most parts of the world are rising.

Mae patrwm y tywydd yn newid, mae tywydd eithafol yn dod yn fwy cyffredin ac mae'r tymheredd yn y rhan fwyaf o'r byd yn codi.

During the summer of 2003 the heatwave resulted in over 2,000 excess deaths across England and Wales...

Yn ystod haf 2003, arweiniodd y tywydd poeth at dros 2,000 o farwolaethau ychwanegol ledled Cymru a Lloegr...

Yn naturiol, lle cynhaliwyd y safon hon, llwyddodd yr ymgeiswyr, ond yng ngheisiadau ymgeiswyr eraill gwelwyd elfennau llwyddiannus fel y rhain yn digwydd ochr yn ochr â gwallau digon esgeulus, e.e. hepgor geiriau pwysig:

...the illness accounted for more than 6% of pupils who were missing large amounts of school.

...dyma'r rheswm oedd yn cael roi dros absenoldeb 6% o ddisgyblion a oedd yn colli llawer o ysgol.

...resulted in over 2,000 excess deaths...

...oedd i 2,000 mwy o bobl farw...

...more than £3 billion pounds worth of damage...

...gwerth £3 biliwn o ddifrod...

Ym mhob un o'r achosion hyn, nid oedd yr elfen a gafodd ei hepgor yn gymhleth nac yn debygol o fod wedi peri dryswch – mae'n gwbl amlwg mai methiant i ddarllen y gwaith yn ofalus cyn ei gyflwyno sy'n gyfrifol am y gwallau. Yr enghraifft waethaf o hyn a gafwyd yn y rownd hon oedd bod tri ymgeisydd wedi gadael brawddeg gyfan heb ei chyfieithu!

Cafodd nifer o'r ymgeiswyr drafferthion eraill gyda'r ystyr hefyd, ac roedd yn drawiadol bod llawer wedi cael anhawster gyda'r un elfennau, e.e.:

...the figure of 1% could well be too low
...o bosib, fe allai 1% fod dipyn yn is
...fe allai y ffigwr o 1% fod yn dipyn yn rhy isel
...ond gallai'r ffigwr 1% fod yn llawer rhy isel
...ond gallai'r ffigwr o 1% fod yn rhy isel o lawer
...ond gall y ffigwr o 1% fod rhy isel
...ond gall y ffigwr o 1% fod lawer yn rhy isel
...ond mae'n bosib bod y ffigwr o 1% fod yn rhy isel
...ond gallai'r ffigwr o 1% fod yn llawer rhy isel yn ei hanfod
...ond gallai fod y ffigwr 1% yn llawer rhy isel
...ond mae'n bosib bod y ffigwr yma o 1% yn rhy isel

For those in health protection...

...i'r rheiny sydd o dan ofal meddygol...
...sy'n gweithio ym meysydd amddiffyn iechyd.
...i'r rhai hynny mewn amddiffyn iechyd...
...i'r rheiny sy'n gweithio ym maes gwarchod iechyd.
...o ran y bobl sy'n cael gofal iechyd,
I'r rheiny sy'n gweithio ym maes amddiffyniad iechyd...
Ar gyfer y rhai sy eisiau gofal iechyd...
Ar gyfer y rheiny sydd o dan warchodaeth iechyd...
Ar gyfer y rheiny mewn gofal iechyd...

Roedd methiant amlwg yma i dreiddio i union ystyr y gwreiddiol, a siom oedd gweld cynifer yn cael eu baglu gan fynegiant a ddylasai fod yn ddigon hawdd ei ddehongli.

Anhawster arall oedd yn brigo i'r wyneb yng ngwaith sawl ymgeisydd oedd trafferth gyda'r ffurfiau berfol:

Floods across the UK in 2007 and the heatwave of 2003 are a stark illustration...
Roedd y llifogydd a darodd y DU yn 2007 a gwres tanbaid haf 2003 yn...

There is substantial evidence that climate change is affecting...
Dangosir tystiolaeth sylweddol fod newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar...

Although it cannot be said with certainty...
Er na ellid dweud yn bendant...

...a glimpse of what could happen in the future.
...cipolwg o beth all ddigwydd yn y dyfodol.

They were given...
Roeddent yn cael...
Derbyniant...
Maent wedi derbyn...

The cause of chronic fatigue syndrome is unknown...
Ni wŷyr yr hyn sy'n achosi syndrom blinder cronig...
Ni wybyddir beth sy'n achosi syndrom blinder cronig...

...a further 23 cases were identified.
...a chafwyd 23 o achosion ychwanegol eu darganfod.
...ac fe ganfydded 23 achos pellach.

Ar ben hynny, cafwyd rhai gwallau cywirdeb diofal, e.e.: **rhu hwyr, a all cael, gydag air glanach, lluedd/lluydd** (yn lle 'lludded'), **therapy, ymledi, yn pery i, effaith dinistriol, salwch ddychrynlyd**, sydd mewn gwirionedd yn dod â ni'n ôl at y pwynt canolog a wneir ym mhob adroddiad ar yr arholiadau, sef bod rhaid darllen y gwaith yn eithriadol o ofalus cyn ei gyflwyno. Er bod disgwyl i waith ymgeiswyr ar y lefel Sylfaenol gael ei ddarllen gan rywun mwy profiadol cyn ei gyflwyno'n derfynol, mae disgwyl hefyd i'r gwaith a gyflwynir fod yn raenus. Siom, felly oedd bod bron un o bob tri ymgeisydd wedi methu o ran cywirdeb wrth gyfieithu'r darn cyntaf, a bod y ganran yn uwch fyth yn achos yr ail ddarn.

Wrth longyfarch yr ymgeiswyr llwyddiannus, felly, carwn annog pawb o'r ymgeiswyr i wneud pob ymdrech i fireinio'u sgiliau ymhellach, a rhoi sylw arbennig i ddarllen eu gwaith, er mwyn craffu'n fanylach nid yn unig ar union ystyr y gwreiddiol, ond hefyd ar unrhyw fân wallau sy'n brigo i'r wyneb wrth gyfieithu.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 12
Llwyddo: 6

Da oedd gweld bod 50% o'r ymgeiswyr wedi llwyddo y tro hwn, ac ambell un arall yn weddol agos at y lan, ond er y gyfradd lwyddo foddhaol, ni lwyddodd neb i gyflawni rhagoriaeth, a hyd yn oed yng ngwaith y goreuon, pur anwastad oedd y safon mewn manau.

Fel mor aml, gwelwyd ymgeiswyr naill ai'n glynu'n rhy agos at batrwm yr iaith wreiddiol, neu'n camddeall ergyd y gwreiddiol, gan greu mynegiant oedd yn drwsogl, ac yn cymylu'r ystyr, neu hyd yn oed yn camgyfieithu'n llwyr, mewn ambell achos. Dyma rai enghreifftiau:

...a bydd yn sail ar gyfer cynlluniau comisiynu a blaenoriaethau cyllido pob awdurdod lleol.
...and will be the basis of commission and priority finance plans in every local authority.
...and it will be a base to commission planning and budget prioritising in each local authority.

...fe fydd ein busnesau cynhenid ar eu colled yn aruthrol.
...our native businesses will be at an extreme loss.

Mae cynghorau sir gogledd Cymru wedi cyhoeddi adroddiad ar y cyd...
Councils in the North Wales counties have announced a joint report...

Nod y digwyddiad fydd dadlau'r achos busnes dros ddefnyddio'r Gymraeg...

The purpose of the event is to debate the case for business use of the Welsh language...

...aelodau etholedig yr awdurdodau dan sylw
...elected members of the authorities in case

...wrth iddi baratoi i gynnal digwyddiad gyda phenaethiaid busnes y tu allan i Gymru.
...as she prepares to hold an event with business heads outside of Wales.

Yn sylfaen i'r strategaeth, mae cynllun gweithredu rhanbarthol a chynlluniau gweithredu yr awdurdodau lleol unigol.

The basis of the strategy is a regional implementation plan as well as plans for individual local authorities to implement.

...strategaeth a fydd yn ymdrin â phob math o ddigartrefedd, boed yn bobl yn cysgu allan...
...a strategy that will deal with all kinds of homelessness, whether with people who are sleeping outdoors...

...a'r gwasanaethau fydd yn caniatáu iddynt fyw'n gynaliadwy yn y cartrefi hynny.
...and the services that allow them to live and be maintainable in those homes.

...pan fu'r iaith yn ganolog i ymgyrchoedd marchnata'r gymdeithas, noddwyd a busnesau eraill a roddodd sylw i lwyddiant y tîm.

...and that when the language was central to the Society's marketing campaigns, it was noted that other businesses paid attention to the successes of the team.

Mae enghreifftiau fel y rhain yn dangos nad yw gafael yr ymgeiswyr ar batrymau'r Saesneg, mewn gwirionedd, yn ddigon cadarn i'w cynnal pan ddaw anawsterau i'w rhan, ac o ganlyniad mae'r ystyr a'r mynegiant yn dioddef. Yn anffodus, cafwyd hefyd nifer o wallau teipio digon esgeulus, megis ***Welsh speaks*** (yn lle 'speakers'), ***form our research*** (yn lle 'from'), ***business's, the Welsh langue, Chartered Housing Association, believe that that food and beverage, its*** (yn lle 'it's'), a syndod hefyd oedd gweld y ffurfiau ***Welsh Commissioner*** a ***Commissioner of/for the Welsh Language*** am Gomisiynydd y Gymraeg, yn hytrach na'r teitl swyddogol ***Welsh Language Commissioner***. Elfen hanfodol o waith unrhyw un sy'n honni bod yn gyfieithydd yw ymgyfarwyddo â thermau cyfarwydd sy'n rhan annatod o fywyd yn y Gymru gyfoes.

Wedi dweud hyn, wrth gwrs, cafwyd enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus hefyd yng ngwaith llawer o'r ymgeiswyr, lle llwyddwyd i gyfleu ystyr y gwreiddiol yn ddiamwys, a hynny mewn Saesneg oedd yn llifo'n naturiol ac yn argyhoeddi'r darllenydd. Dyma rai enghreifftiau:

...boed yn bobl yn cysgu allan, digartrefedd ymysg pobl ifanc, neu bobl sydd ar restrau aros tai cymdeithasol yn byw mewn llety dros dro.
...whether it be rough sleepers, homelessness among young people, or people who are on waiting lists for social housing and living in temporary accommodation.

Seiliwyd y strategaeth ar gydweithio er mwyn cyflawni nod cyffredin – dileu digartrefedd yng ngogledd Cymru.

The strategy is based on working collectively in order to achieve a common goal – eradicating homelessness in North Wales.

...a chefnogi'r iaith fel cyfrwng unigryw sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol i hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

...and to support the language as a unique medium which is already being used more and more to promote Wales on the international stage.

Mae Llywodraeth Cymru wedi galw am fwy o gydweithio rhwng cynghorau...

Welsh Government has called for more collaboration between councils...

...a bydd yn sail ar gyfer cynlluniau comisiynu a blaenoriaethau cyllido pob awdurdod lleol.

...and will form the basis of every local authority's commissioning plans and funding priorities.

...os ydym eisiau denu a chadw cwsmeriaid a gweld busnesau Cymru'n llwyddo ar y llwyfan rhyngwladol, ...i ddatblygu brand cryf a chofiadwy a chadw'r Gymraeg yn ganolog.

...if we wish to attract and keep customers and to see Welsh businesses succeed on the international stage, ...develop a strong and memorable brand and to keep the Welsh language at its heart.

...rhaid i'r cynghorau gydweithio er mwyn cyfuno data, gwasanaethau ac atebion...

...councils must collaborate to combine data, services and solutions...

Fel mewn cynifer o rowndiau, felly, problem oedd yn codi'n gyson oedd y gallu i gynnal safon foddhaol ar hyd y cyfieithiad. Gan gadw hynny mewn cof, wrth longyfarch ymgeiswyr llwyddiannus y rownd hon, hoffwn eu hannog i beidio â gorffwys ar eu rhwyfau, ond i ymdrechu'n barhaus i wella'u gwaith ymhellach, fel eu bod yn llwyddo i gynnal safon rhannau gorau eu gwaith trwy'r cyfan. Bydd hynny yn ei dro yn sicrhau bod ganddynt sylfaen gadarn i adeiladu arni wrth symud ymlaen at Aelodaeth Gyflawn yn y man.

Wrth gloi fy adroddiad, fel bob amser, carwn ddiolch o galon i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r Bwrdd Arholi Testunau am bob cefnogaeth a chymorth.

**Fiona Gannon
Mehefin 2019**